

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y
Trallwng, Powys) (Gwahardd
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr
Dros Dro) 2019

The A458 Trunk Road (Welshpool,
Powys) (Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)
Order 2019

Gwnaed 27 Mawrth 2019

Made 27 March 2019

Yn dod i rym 1 Ebrill 2019

Coming into force 1 April 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A458 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 1 Ebrill 2019.

1. The title of this Order is the A458 Trunk Road (Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 1 April 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" means the A458 Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 2 a 3 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

7. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

27 Mawrth 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Church Street, y Trallwng, sy'n ymestyn o ben deheuol yr ynys hollti ganolog wrth ei chyffordd â Mill Lane hyd at ben gogleddol yr ynys hollti wrth ei chyffordd â Brook Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Church Bank, y Trallwng, sy'n ymestyn o ben gogleddol yr ynys hollti wrth gyffordd Brook Street/Church Street hyd at ganolbwynt cyffordd Red Bank/Salop Road.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 09:00 hours on 1 April 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road specified in paragraph 1 of the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in paragraphs 2 and 3 of the Schedule to this Order.

5. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

6. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

7. The prohibitions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

8. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

27 March 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the trunk road known as Church Street, Welshpool that extends from the southern tip of the central splitter island at its junction with Mill Lane to the northern tip of the splitter island at its junction with Brook Street.

The length of the trunk road known as Church Bank, Welshpool that extends from the northern tip of the splitter island at the Brook Street/Church Street junction to the centre-point of the Red Bank/Salop Road junction.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Salop Road, y Trallwng, sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Red Bank hyd at bwynt dwyreiniol yr ynys holli wrth ei chyffordd â Mill Lane.

The length of the trunk road known as Salop Road, Welshpool that extends from the centre-point of its junction with Red Bank to the eastern tip of the splitter island at its junction with Mill Lane.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (Y TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2019

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A458 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd. Gwneir esemptiad ar gyfer cerbydau gwasanaethau brys yn ystod y gwaith yn Church Bank a Salop Road.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym am 09:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2019 ac yn weithredol, yn ysbeidiol, tan 31 Mai 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd Church Street ar gau ar bob adeg yn ystod cyfnod y gwaith yn y lleoliad hwnnw. Bydd y gwaith yn Church Bank a Salop Road yn digwydd dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) a chaiff ei amserlenni ar gyfer dyddiadau gwahanol i'r rheini a amserlennir ar gyfer Church Street.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

MRS C J McCARTHY
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A458 TRUNK ROAD (WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2019

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A458 trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein. An exemption will be made for emergency services vehicles during works at Church Bank and Salop Road.

The temporary prohibitions are expected to come into force at 09:00 hours on 1 April 2019 and operate, intermittently, until 31 May 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Church Street will be closed at all times for the duration of the works at that location. Works on Church Bank and Salop Road will take place overnight (20:00 – 06:00 hours) and will be programmed for different dates from those on Church Street.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

MRS C J McCARTHY
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

1. Y darn o'r A458 o'r enw Church Street, y Trallwng, sy'n ymestyn o ben deheuol yr ynys hollti ganolog wrth ei chyffordd â Mill Lane hyd at ben gogleddol yr ynys hollti wrth ei chyffordd â Brook Street.

Y llwybr arall o ben gogleddol y darn o'r ffordd sydd ar gau yw mynd ar yr A458 Church Bank, yr A458 Salop Road a'r U4418 Mill Lane i ailymuno â'r A458 Church Street. Dylai traffig sy'n teithio o ben deheuol y darn o'r ffordd sydd ar gau fynd ar yr A458 Church Street, yr A458 Broad Street, yr A458 High Street, yr U4406 Jehu Road a'r B4381 Brook Street hyd at ei chyffordd â'r A458 Church Bank.

2. Y darn o'r A458 Church Bank, y Trallwng, sy'n ymestyn o ben gogleddol yr ynys hollti wrth gyffordd Brook Street/Church Street hyd at ganolbwynt cyffordd Red Bank/Salop Road.

3. Y darn o'r A458 Salop Road, y Trallwng, sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Red Bank hyd at ben dwyreiniol yr ynys hollti wrth ei chyffordd â Mill Lane.

Y llwybr arall fydd mynd ar hyd Mill Lane tua'r dwyrain o'i chyffordd â Church Street hyd at ei chyffordd â Salop Road.

SCHEDULE

1. The length of the A458 Church Street, Welshpool that extends from the southern tip of the central splitter island at its junction with Mill Lane to the northern tip of the splitter island at its junction with Brook Street.

The alternative route from the northern end of the closure is via the A458 Church Bank, A458 Salop Road and U4418 Mill Lane to rejoin the A458 Church Street. From the southern end of the closure traffic should then follow the A458 Church Street, A458 Broad Street, A458 High Street, U4406 Jehu Road and B4381 Brook Street to its junction with the A458 Church Bank.

2. The length of the A458 Church Bank, Welshpool that extends from the northern tip of the splitter island at the Brook Street/Church Street junction to the centre-point of the Red Bank/Salop Road junction.

3. The length of the A458 Salop Road, Welshpool that extends from the centre-point of its junction with Red Bank to the eastern tip of the splitter island at its junction with Mill Lane.

The alternative route is via the eastbound Mill Lane from its junction with Church Street to its junction with Salop Road.